Hawdd ei Ddeall

# Ehangu ymgysylltiad

## Ein cynlluniau i wneud y celfyddydau yn fwy poblogaidd



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o** 'Gynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad 2022-2025'.

**Ionawr 2022**

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd eu deall. Gallwch chi edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 18**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** arts.wales/cy

**Ffôn:** 03301 242733

**Cysylltwch â ni:** arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Ynglŷn â'r ddogfen hon ....................................................... 4**

**Cyflwyniad................................................................................ 5**

**Ein nodau.................................................................................. 6**

**Y pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud.................................... 9**

Ein staff......................................................................................... 9

Democratiaeth ddiwylliannol........................................................ 10

Yr iaith Gymraeg........................................................................... 11

Gwasanaethau hygyrch................................................................. 12

Hyfforddiant a medrau staff.......................................................... 13

Dweud wrth bobl am ein gwaith.................................................... 14

**Y pethau rydyn ni wedi eu gwneud hyd yma.............................. 15**

**Geiriau anodd........................................................................... 18**

# Ynglŷn â’r ddogfen hon




Yn y ddogfen hon rydyn ni’n siarad am **bobl sy’n fyddar ac anabl**.



Mae’r termau **pobl sy’n fyddar ac anabl** yn cynnwys pobl sydd ag unrhyw anabledd. Gan gynnwys anabledd dysgu.



Yn y ddogfen hon rydyn ni’n siarad am gymunedau **amrywiaethol**.

Mae **amrywiaethol** yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu yn dda am wahanol bethau.



Mae’r term cymunedau **amrywiaethol** yn cynnwys yr holl wahanol gymunedau sydd gennym ni yng Nghymru.



Er enghraifft, cymunedau sydd â pobl ddu a phobl groenliw nad ydyn nhw’n ddu. Neu gymunedau hoyw.

# Cyflwyniad

Ni yw Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru.




Fe wnaethon ni brosiect mawr ym mis Awst 2021.




Mae arnon ni eisiau dod i wybod pam nad yw'r celfyddydau yn boblogaidd ymysg rhai grwpiau o bobl.



Fe siaradon ni â llawer o wahanol bobl. Er enghraifft, fe siaradon ni â:

- phobl sy'n fyddar ac anabl
- pobl ddu a phobl groenliw nad ydynnhw'n ddu, sy'n gweithio yn y celfyddydau
- pobl sy'n byw mewn cymunedau tlotach.




Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r hyn y daethon ni i wybod. A'n cynlluniau i wneud y celfyddydau yn well.

# Ein nodau



Fe ddaethon ni i wybod nad yw’r celfyddydau Cymreig yn ddigon **cynhwysol** a **hygyrch**.




Mae **cynhwysol** yn meddwl y gall bawb gymryd rhan, a bod pawb yn cael cyfle teg.

Mae **hygyrch** yn meddwl bod rhywle yn hawdd ei gyrraedd. A symud o un lle i’r llall yn rhywle. Mae hefyd yn meddwl bod gwybodaeth yn hawdd ei gyrraedd.



Mae arnon ni eisiau newid hyn.



Mae arnon ni eisiau cael gwared â **gwahaniaethu** yn erbyn rhywun yn y celfyddydau.



Mae rhywun yn **gwahaniaethu** yn eich erbyn pan fyddwch chi’n cael eich trin yn wael neu’n annheg oherwydd eich rhyw, eich hil, eich crefydd, eich anabledd, neu eich hunaniaeth rywiol.



Mae arnon ni eisiau i **bawb** fedru mwynhau y celfyddydau Cymreig.



Mae arnon ni eisiau i **bawb** gael dweud eu barn am y celfyddydau Cymreig a'r digwyddiadau.




Mae ein gwaith yn dilyn deddf Llywodraeth Cymru sy'n cael ei alw'n **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.



Mae'r ddeddf hon yn ymwneud â datblygu Cymru well, sy'n decach ac yn gryfach. Yn awr ac yn y dyfodol.




Gallwch chi ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y ddeddf hon trwy glicio yma.

Byddwn ni’n gweithio’n agos gyda **Llywodraeth Cymru**.




Byddwn ni’n rhoi ein nodau ar waith rhwng 2022 a 2025.

# Y pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud

## Ein staff



Byddwn ni'n recriwtio mwy o staff **amrywiaethol**. Yn enwedig mewn gwaith sy'n gofyn am arweinyddiaeth.



Byddwn ni'n ei gwneud hi'n haws i bobl o gymunedau **amrywiaethol** gael gwaith gyda ni.



Bydd cael staff **amrywiaethol** yn ein helpu i ddeall cymunedau **amrywiaethol** yn well. A sut beth yw bywyd iddyn nhw.




Fyddwn ni ddim yn goddef **gwahaniaethu** yn y celfyddydau Cymreig. Er enghraifft, yn erbyn pobl anabl. Neu yn erbyn pobl hoyw.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein staff **amrywiaethol** yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cynnwys yn y gwaith.


# Democratiaeth ddiwylliannol



Mae **democratiaeth ddiwylliannol** yn bod pan fydd pawb yn cael dweud eu barn yn y celfyddydau lleol a digwyddiadau diwylliannol.



Mae hyn yn cynnwys cymunedau **amrywiaethol**.




Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb yn cael dweud eu barn yn y celfyddydau. A ble a phryd y bydd digwyddiadau'n digwydd.



Byddwn ni'n ei gwneud hi'n haws i grwpiau **amrywiaethol** gael arian am eu prosiectau celfyddyd.




Byddwn ni'n ei gwneud hi'n haws i grwpiau **amrywiaethol** greu digwyddiadau sy'n eu diddori nhw. A'u cymunedau. Er enghraifft, digwyddiadau mewn ysgolion am hanes pobl dduon.

# Yr iaith Gymraeg



Mae arnon ni eisiau i bawb deimlo'n falch o'r iaith Gymraeg.




Mae arnon ni eisiau i'r iaith Gymraeg gael ei chynnwys yn y celfyddydau Cymreig. Ac yn yr holl wasanaethau cyhoeddus.



Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cynnwys yn y celfyddydau Cymreig.




Byddwn ni'n helpu mwy o bobl yn y celfyddydau i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.




Byddwn ni'n cefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ddysgu Cymraeg.

# Gwasanaethau hygyrch



Byddwn ni’n gwneud y celfyddydau Cymreig yn fwy **hygyrch** a **chynhwysol** i bawb.



Mae hyn yn cynnwys **pobl sy’n fyddar ac anabl**.



Byddwn ni’n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain yn ein holl waith cyhoeddus.



Mae arnon ni eisiau i Iaith Arwyddion Prydain ddod yn drydedd iaith yn Nghymru.




Byddwn ni’n creu adnoddau mewn ffyrdd y gall pawb eu deall. Er enghraifft, gwybodaeth Hawdd ei Ddeall. Ac mewn gwahanol ieithoedd.



Byddwn ni’n defnyddio technoleg i wneud y celfyddydau yn fwy **hygyrch**.

# Hyfforddiant a medrau staff



Mae arnon ni eisiau i'r celfyddydau deimlo'n ddiogel a **chynhwysol** i bawb.



Bydd ein holl staff yn cael hyfforddiant ar:

- ffyrdd o fod yn fwy **cynhwysol**
- sut i osgoi **gwahaniaethu**
- **cydraddoldeb**




Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg.



Bydd yr hyfforddiant hwn ar gyfer yr **holl** staff. Gan gynnwys staff sy'n arwain.



Ni fyddwn ni'n goddef **gwahaniaethu** yn y celfyddydau.



Byddwn ni'n helpu mwy o bobl ifainc a phobl **amrywiaethol** i ddechrau gweithio yn y celfyddydau.

# Dweud wrth bobl am ein gwaith



Mae arnon ni eisiau i fwy o bobl wybod amdanon ni. Yn enwedig pobl o gymunedau **amrywiaethol**.



Byddwn ni'n newid y ffordd rydyn ni'n cyfathrebu fel bo mwy o bobl yn clywed amdanon ni. A mwy o bobl yn deall beth rydyn ni'n wneud.



Byddwn ni'n gweithio'n fwy agos gyda chymunedau **amrywiaethol**. Er enghraifft, gyda grwpiau byddar ac anabl. A chyda pobl ddu a phobl croenliw nad ydyn nhw'n ddu.



Mae arnon ni eisiau dangos i bobl ein bod ni'n gwbl **gynhwysol**.



Mae arnon ni eisiau dangos i bobl y gallan nhw ymddiried ynon ni.

# Y pethau rydyn ni wedi eu gwneud hyd yma

Rydyn ni'n barod wedi dechrau gweithio ar ein cynlluniau. Er enghraifft, yng **Nghyngor Celfyddydau Cymru,** rydyn ni'n:



- Helpu mudiadau sy'n cael eu harwain gan bobl sy'n fyddar ac anabl. Neu'n cael eu harwain gan gymunedau **amrywiaethol**.



- Cyflogi Ysgogwr y Gymraeg i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg trwy ein mudiad a'n gwaith i gyd.



- Helpu'r celfyddydau i fod yn fwy **cynhwysol** ar gyfer pobl anabl a'u gofalwyr. Er enghraifft, mae defnyddio'r cerdyn '**Hynt**' yn rhoi mynediad am ddim i ddigwyddiadau i ofalwyr a chynorthwywyr personol.




- Gweithio gydag ysgolion fel bo pobl yn medru dysgu mwy am hanes pobl dduon yng Nghymru.




- Ei gwneud hi'n haws i fudiadau gael **nawdd** celfyddydau. Mae **nawdd** yn arian y gall mudiadau ei gael i'w helpu i wneud eu gwaith.



- Cyflogi mwy o staff **amrywiaethol**.

Yn **Amgueddfa Cymru** rydyn ni'n:




- Gwneud cynllun newydd ar gyfer ein holl fudiad a'n holl waith. Bydd yn canolbwyntio ar ein hymrwymiad i'r syniadau yn y cynllun hwn.



- Bod yn fwy **cynhwysol**. A'i gwneud hi'n haws i bobl **amrywiaethol** ddod aton ni i weithio.



- Gweithio ar arddangosfeydd ynghylch **amrywiaeth** a hanes pobl ddu.



- Gwneud yn siŵr mai'r bobl iawn sy'n berchen ar ein casgliadau.



- Gwneud mwy i gynnwys pobl ifainc yn ein gwaith. Yn enwedig pobl ifainc fuasai ddim fel arfer yn ymweld â'n hamgueddfeydd.



- Rydyn ni'n gweithio ar brosiectau ar gyfer pobl hŷn. Mewn partneriaeth â Chomisiynydd Pobl Hŷn, Cymdeithas Alzheimer, 'Innovate Trust' a darparwyr cartrefi gofal.



- Gwneud ein hamgueddfeydd yn fwy **hygyrch**.

# Geiriau anodd

## Amrywiaethol

Mae amrywiaethol yn meddwl nad ydyn ni i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o wahanol gefndiroedd, yn gwneud gwahanol ddewisiadau neu yn dda am wahanol bethau.

## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg.

## Cynhwysol

Mae cynhwysol yn meddwl y gall bawb gymryd rhan a bod pawb yn cael cyfle teg.

## Gwahaniaethu

Mae rhywun yn gwahaniaethu yn eich erbyn pan fyddwch chi'n cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich rhyw, eich hil, eich crefydd, eich anabledd, neu eich hunaniaeth rywiol.

## Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod rhywle yn hawdd ei gyrraedd. A symud o un lle i'r llall yn rhywle. Mae hefyd yn meddwl bod gwybodaeth yn hawdd ei gyrraedd.